COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 1af o FEHEFIN 2015 YN YSTAFELL Y BAND,CRWBIN AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams,Alan Lewis,Heddwyn Jones,Aled Williams,Richard Thomas,Meic Bowen a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Ellis Jenkins,Geoff Hewitt, Carrie Rees a Wendy Evans

Materion Personol

1172 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1173 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 11/05/2015 fel rhai cywir.

1174 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1126 - Safle Gorsaf Pontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod ein cais am grant o'r Loteri Fawr wedi cael ei wrthod. Penderfynwyd cysylltu â Caroline Owen o Gyngor Sir Gar am arweiniad pellach.
Tud. 2 Cofnod Rhif 1126 - Mynydd Crwbin. Cafwyd adroddiad gan y Clerc o'r sefyllfa bresennol ac arhoswn am adroddiad pellach o'r Cyngor Sir.
Tud. 2 Cofnod Rhif 1145 - Ymddiswyddiad Cynghorwr. Mae'r ymddiswyddiad wedi ei chofrestri gan y Cyngor Sir ac mae'r hysbyseb wedi ei osod mewn man cyhoeddus dyddiad cau yw 08/06/15.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1175 Sioe Bancffosfelen a'r Cylch -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200.

1176 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Llythyr yn diolch am rodd.

1177 Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Derbyniwyd Llythyr yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor wrth i'r Cyngor gwneud cais am nawdd ariannol i osod grisiau newydd yn y Clwb.Penderfynnwyd cefnogi'r Cais.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1178 Grŵp Cynghorau Cymuned Cwm Gwendraeth - Nodwyd bod Cyfarfod i'w gynnal yng Nghanolfan Menter Cwm Gwendraeth Elli ar 16/06/15.

1179 Cyngor Sir Gar - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe. - Nodwyd bod ein cais am arwyddion wedi ei osod ar Restr Gwaith y Cyngor Sir pan fydd cyllid ar gael.

Ceisiadau Cynllunio

1180 Cadarnhau Ceisiadau Cynllunio

- Mr & Mrs E Jones - Fferm Cwm Eynon,Pedair Heol - Adeilad Amaethyddol - Nodwyd bod Cyfarfod Safle wedi ei chynnal ar 14/05/15.a bod sylwadau'r Cyngor Cymuned wedi ei danfon at Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.

Ceisiadau Cynllunio:

- Amanda Aldridge - Maesevan,Llanddarog - Newid Rhan o'r Cae - Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1181 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Mai.

Adroddiad Ariannol Misol

1182 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £350.44 (Mis Mai)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mai)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr – £89.19 (Mis Mai)
ch) HMRC (Treth)- £70.00 (Mis Mai)
d) Lwfans y Cadeirydd - £300.00
dd) Bag Newydd tuag at Waith y Clerc- £41.64

1183 Yswiriant y Cyngor

Awdurdodwyd y Clerc i dalu Cwmni Zurich am Yswiriant y Cyngor am swm o £960.88 am y flwyddyn sy'n rhedeg o 13/07/2015 hyd 12/07/16.

1184 Cysgodfa Bws Pontantwn

Wedi trafodaeth lwyr a chlir penderfynwyd ein bod yn derbyn amcan bris oddiwrth Martin Richards, Mynydd-y Garreg am £1390.00 am ddodi To Newydd a gwaith eraill ar Gysgodfa Bws Pontantwn.

1185 Pwyllgor Cynllunio

Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd bod yr Is-bwyllgor hwn yn cwrdd am **18.45 o'r gloch** cyn pob Cyfarfod Misol.

1186 Cyfrifon y Cyngor 2014-2015 – Cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Linda Williams ein bod yn derbyn Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2014/2015, yn llofnodi'r ffurflen a'u danfon nhw i'r Archwilwyr Allanol, y BDO.

Materion Cynghorwyr

1187 Alan

- Bydd Cais Cynllunio newydd yn cael ei derbyn gan y Cyngor Sir ym Mis Awst.Gobethir cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yng Nghrwbin ynglŷn â'r mater.Argymhellwyd defnyddio Ebeneser Crwbin at y diben hwn.

1188 Richard

- Gofyn i Gyngor Sir Gar trashio a thorri Coed yn y Gymuned yn gyffredinol.

1189 Ian

- Cysylltu eto a 'Ffoslas Ltd' ynglŷn â'u chyfraniad tuag at waith ym Mhentref Carwe,
- Danfon llythyr eto at Brif Weithredwr y Cyngor Sir ynglŷn ar enw 'HEOL TRIMSARAN' yng Ngharwe,

1190 Tyssul Mae Côr Glannau'r Gwendraeth yn mynd ar daith cyn bo hir. Penderfynwyd cyflwyno rhodd o lechen gwerth £10-£20 i'w cyflwyno ar y daith.

1191	Meic ar y mater.	Problem o dwr yn aros ar Heol Carwe. Cysylltu â Darren King a Gary Baxter

Cyfarfod nesaf:- 6ed o Orffennaf 2015 yn Festri Capel Salem,Pedair Heol am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch- ger Fferm Cwm Eynon)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……